# Adroddiad Blynyddol Taf 2019/20

TAFF



**Dianne Bevan**
Cadeirydd y Bwrdd



**Helen White**
Prif Weithredwr

## Bu 2019/20 yn flwyddyn brysur i Taf!

Fe darodd y pandemig coronafeirws bron ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan olygu y bu'n rhaid i ni orffen y flwyddyn yn darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Fe wnaeth cydweithwyr a thenantiaid dderbyn y newidiadau hyn yn fodlon, a hoffem ddiolch i bawb a ddangosodd lawer iawn o wytnwch a phenderfyniad i wneud yn siwr y bu modd i ni gadw ein tenantiaid, cydweithwyr a chartrefi yn ddiogel ar amser mor anodd. Rydym yn falch tu hwnt o'r ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangosodd ein holl gydweithwyr.

Mae medru parhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol, gyda mwyafrif helaeth ein cydweithwyr yn gweithio gartref, wedi dangos y gallwn wneud pethau yn wahanol. Wrth i ni symud at ein 'normal newydd' rydym eisiau casglu'r holl ddysgu a chyfleoedd a ddaeth yn sgil gorfod meddwl a gweithredu yn wahanol – gan weithio tuag at ddod yn fwy ystwyth yn sut y gweithiwn.

Yn ystod y flwyddyn ffarweliodd Taf gyda'n Prif Weithredwr Elaine Ballard. Bu ffocws ar adeiladu ar y gwaddol a adawodd Elaine, gan gadw ein gwerthoedd craidd yn ganolog i wneud penderfyniadau a sicrhau fod tenantiaid yn parhau i chwarae rôl allweddol mewn dylanwadu ar sut y darparwn wasanaethau. Mae ein Panel Craffu Tenantiaid yn parhau i arwain y ffordd yng Nghymru, ym mis Tachwedd fe wnaethant ennill Gwobr Pat Chown am Arloesedd mewn Tai.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyd-daro gyda lansio ein brandio newydd. Gobeithiwn y byddwch yn cytuno ei bod yn olwg ffres ac egnïol i Taf. Er ein bod yn gwneud llawer o newidiadau cyffrous, gallwn eich sicrhau nad yw ein hymrwymiad i denantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau wedi newid. Mae ein brand newydd yn cynrychioli ein hymrwymiad i ddarparu cartrefi a gwasanaethau gwych, bod yn gyflogwr rhagorol a galluogi cymunedau lleol i ffynnu.

Rydym wedi parhau i ddarparu cartrefi newydd y mae angen mawr amdanynt yng Nghaerdydd. Fe wnaethom gwblhau 52 cartref newydd yn ystod y flwyddyn. Mae sicrhau fod ein holl gartrefi yn ddiogel yn parhau'n flaenoriaeth allweddol, yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar dynhau ein polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch.

Rydym wedi cynnal dyfarniad rheoleiddiol Safonol gan Lywodraeth Cymru ar lywodraethu a gwasanaethau a hyfywedd ariannol – y dyfarniad uchaf sydd ar gael.

Hoffem ddiolch i aelodau Bwrdd Taf, cydweithwyr, tenantiaid, partneriaid, contractwyr a chyllidwyr am y rôl hanfodol a fu ganddynt wrth ein helpu i sicrhau canlyniadau gwych a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau a chymunedau.

# Eich cadw yn ddiogel

Eich cadw yn ddiogel yn eich cartref yw ein prif flaenoriaeth.

## Cartrefi diogel

Rydym yn cynnal arolygiadau a thasgau rheolaidd i gadw cartrefi ein tenantiaid yn ddiogel.
Yn cynnwys:

- gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar nwy a gosodiadau trydanol
- asesu ein blociau am ddiogelwch tân
- cynnal tasgau i atal haint legionella lle mae angen
- rhoi gwasanaeth i lifftiau a rheoli asbestos i sicrhau y caiff ei gadw'n ddiogel

## Addasiadau

Rydym wedi buddsoddi £300,000 mewn addasiadau ar gyfer ein tenantiaid anabl.

Mae'r gweithiau hyn wedi cynnwys gosod cawodydd mynediad gwastad ac addasiadau eraill i wneud cartrefi yn fwy hygyrch ac addas ar gyfer anghenion penodol preswylwyr.

### Fe wnaeth ein rhaglen cynnal a chadw cynlluniedig adnewyddu

**115** drws tân

**115** boeler

**86** cegin

**12** ystafell ymolchi

**7** gosodiad trydanol

**3** to

# Cartrefi a chymunedau

Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau fod ein cartrefi yn lleoedd diogel i fyw ynddynt, sy'n cael eu cadw a chynnal yn dda, bod ein gwasanaethau ar gael yn rhwydd a bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen.

## Dim achosion troi allan

Mae ein Grant Caledi wedi helpu **35 tenant** yn ystod cyfnodau o anhawster ariannol.

Mae gennym gefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen a'r pwyslais clir a roddwn ar bwysigrwydd cael lle i'w alw'n gartref.



## Credyd Cynhwysol

Ymestyn Credyd Cynhwysol fu'r newid mwyaf i'r system budd-daliadau mewn cenhedlaeth felly rydym yn fwriadol wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi tenantiaid sydd wedi symud i'r Credyd Cynhwysol.

Rydym wedi parhau i gynnig cyngor arian unigol ac i gefnogi, yn ogystal â hyfforddiant a gwirfoddoli i 67 tenant.

**4000**
o atgyweiriadau wedi eu cyflawni gan ein tîm mewnol gan sicrhau ...

**99%**
cyfradd bodlonrwydd i'n gwasanaeth atgyweirio

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydym wedi sicrhau cyfradd bodlonrwydd o 96% wrth i ni barhau i gynnig gwasanaeth unigol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol lle rydym yn canolbwyntio ar sicrhau datrysiadau hirdymor i bob parti.

Gwyddom pa mor bwysig yw hi i gael lle gweddus i fyw a chefnogaeth ar gael os ydych angen hynny.

Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar gyflawni'r nod honno

Cysylltodd Clive, pensiynwr sengl 67 oed, â ni gan ei fod yn cael anodd talu ei filiau cyfleustod ar incwm isel.

Ar yr ymweliad cyntaf fe wnaethom ddarganfod fod Clive yn defnyddio cadair olwyn ac esboniodd nad oedd yn medru defnyddio ei gegin gan na fedrai gyrraedd y ffwrn.

Nid oedd Clive yn derbyn yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddo hawl iddynt na'r gostyngiadau oedd ar gael ar gyfer ei gyfleustodau.

Felly fe wnaethom ei gefnogi i:

- gael grant PAG o £21,000 i osod cegin wedi'i haddasu ar gyfer yr anabl gan ei alluogi i goginio iddo'i hun yn ddiogel
- cael grant tanwydd gaeaf o £200
- cael gostyngiad cartref cynnes o £140 ar gyfer ei drydan
- cynyddu ei incwm gan £86 yr wythnos mewn budd-daliadau nad oedd yn ei hawlio



Mae gan Clive yn awr mwy o sicrwydd ariannol a gyda'n cefnogaeth, fe wnaethom lacio ei bryderon am dalu ei filiau.

# Cymryd rhan

## Panel Craffu

Cyflwynodd ein Panel Craffu Tenantiaid ddau adroddiad gydag argymhellion i'n Bwrdd.

Enillodd y gwaith ar graffu unedau gwag ddwy wobr genedlaethol yn edrych ar unedau gwag o safbwynt tenantiaid gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n cael eu hailgartrefu o restr Digartrefedd yr Awdurdod Lleol.

Cafodd y canfyddiadau a'r argymhellion dilynol effeithiau a newidiodd fywyd rhai tenantiaid.



Enillwyr Gwobr Pat Chown

## Hyfforddiant

**20**
hyfforddwr wedi mynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch

**6**
prentisiaeth wedi eu creu fel rhan o gyfleoedd hyfforddiant a recriwtio wedi'u targedu gyda'n datblygiadau newydd

**95%**
yn dweud eu bod wedi dysgu sgiliau newydd

## Lleoliadau Gwaith Cymdeithasol / Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

Rydym wedi parhau i noddi Lleoliadau Gwaith Cymdeithasol a Gwaith Ieuenctid a Chymunedol yn ein Gwasanaethau Cymorth sy'n rhoi cyfle gwych i fyfyrwyr, cydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae myfyrwyr yn cael profiad gwych yn gweithio yn ein gwasanaethau arbenigol ac mae cydweithwyr a hefyd ddefnyddwyr gwasanaeth yn ennill o'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd gan y myfyrwyr hyn.

# Adeiladu cartrefi

Rydym wedi cwblhau 52 cartref newydd ar gost o £5.3m.

ym mis Hydref symudodd tenantiaid i 19 cartref newydd yn Llys Saltmead yn Grangetown

ym mis Chwefror symudodd 33 o bobl i Llys Eirwg, Llaneirwg wrth i ni osod ein datblygiad tai newydd mwyaf yn Taf, gan ddarparu cartrefi sydd ag angen mawr amdanynt

Ac rydym wedi dechrau ar y safle i ddatblygu yn ...

Radur
lle'r ydym yn adeiladu 36 cartref ar gost o £4.2m

Clive Lane yn Grangetown
lle'r ydym yn adeiladu 12 cartref ar gost o £1.4m



# Cymorth

Rydym wedi darparu cymorth cysylltiedig â thai i dros 800 o unigolion a theuluoedd i osgoi digartrefedd.

## Consortia Pobl Ifanc

Eleni gwelsom lety â chymorth pobl ifanc yn cael ei ail-gomisiynu ac fe wnaethom ddechrau ar bartneriaeth sy'n cynnwys Taf, Byddin yr Iachawdwriaeth a Byddin yr Eglwys yn darparu 106 uned llety â chymorth ar draws Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys Ty Seren, Ty Haul a gwasanaethau Foyer Taf.

Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar drin digartrefedd ieuenctid mewn ffordd seiliedig ar seicoleg, paratoi pobl ifanc ar gyfer byw'n annibynnol a rhoi cyfleoedd i adeiladu eu sgiliau, hyder ac uchelgais i wneud yn siw r nad ydynt byth yn profi digartrefedd eto.

Drwy'r holl 106 uned ac allgymorth rydym wedi cefnogi 194 o bobl.

## Ymwreiddio PIE (Amgylcheddau Seiliedig ar Seicoleg)

Rydym wedi ymwreiddio PIE ymhellach yn ein gwasanaethau Tai â Chymorth, gan ddatblygu fframwaith seicolegol sy'n dangos sut ydym yn rhyngweithio a gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig yn fwy ar seicoleg.

Edrychwn ar sut y gweithredwn y fframwaith seicolegol ar draws Taf dros y flwyddyn nesaf.

## Parhau i gefnogi ffoaduriaid

Rydym yn parhau i gefnogi teuluoedd ar draws Caerdydd a'r Fro fel rhan o Gynllun Ailsefydlu y Deyrnas Unedig. Eleni fe gawsom y contract i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd.

Mae'r prosiectau hyn hyd yma wedi cefnogi 46 o deuluoedd ffoaduriaid wedi eu dadleoli i ymgartrefu yng Nghymru, llawer ohonynt wedi goroesi neu ffoi o sefyllfaoedd eithafol tebyg i ryfel ac erledigaeth.

## Ymestyn ein gwasanaethau i Ben-y-bont ar Ogwr

Buom yn llwyddiannus yn ennill contract newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr dan yr enw START ('Support to Achieve Resettlement Together') yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i bobl yn gadael carchar, gan eu cynorthwyo i ganfod a chynnal tenantiaeth sydd yn ei dro yn gostwng y tebygrwydd o ail-droseddu.

Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Prawf, y Cyngor, carchardai lleol a'r sector rhent preifat.



“Mae’r profiad hwn wedi newid sut ydw i’n gweld fy hun a faint y gallaf wthio fy hun pan fyddaf yn mynd amdani”

Am un wythnos ym mis Mehefin, aeth chwech o breswylwyr Ty Seren i hwylio ar long uchel i ddysgu sgiliau mewn gweithio tîm, datrys problemau a chyfathrebu effeithlon.

Yng nghwmni elusen The Island Trust a phedwar aelod o staff, dysgodd preswylwyr sut i godi hwyliau, gwneud clymau a hyd yn oed gael cyfle i gymryd rhan mewn ymarferiad gan y Llynges Frenhinol.

Rhoddodd amser i ffwrdd o gartref gyfle i’n preswylwyr ystyried lle maent arni yn eu bywydau a sut ddyfodol y dymunant ei gael.

“Wnes i erioed feddwl ei fod yn rhywbeth y gallwn ei wneud”



# Ein pobl

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein staff drwy ddysgu a datblygu.

## Dysgu Seiliedig ar Waith / Prentisiaethau

Dechreuodd dysgwyr neu roeddent yn gweithio tuag at eu cymhwyster dysgu seiliedig ar waith gyda 5 darparydd yn 2019 gyda ACT y darparydd a ffafrir:

- 6 dysgwr wedi gadael y rhaglen (5 wedi gadael cyflogaeth gyda Taf)
- 10 dysgwr wedi cwblhau eu cymwysterau (3 yn symud ymlaen i'r lefel nesaf)
- 4 yn cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd



## ac rydym wedi ...

| croesawu | gwneud | hysbysebu |
|---|---|---|
| 53 | 6 | 64 |
| dechreuwr newydd | apwyntiad mewnol | swydd wag |

# Cyllid

Mawrth 2020 yw diwedd trydedd flwyddyn Cynllun Busnes Pum Mlynedd Taf (Adeiladu Sylfeini ar gyfer Dyfodol Gwell). Gwelodd y flwyddyn newid sylweddol o fewn y tîm arweinyddiaeth a'r Bwrdd ac arweiniodd hynny at newid mewn ffocws.

## Sicrhawyd sefyllfa ariannol gadarnhaol yn y flwyddyn er gwaethaf rhai heriau.

Cyhoeddwyd rhagolwg diwygiedig ym mis Tachwedd a bu'r tîm yn cydweithio i sicrhau cyflawni hyn. Yn ddilynol bu'n rhaid i ni addasu eto i ymdopi ag effaith COVID19 ar y sefydliad a'i denantiaid.

Roedd cyflwyno meddalwedd Rheoli Risg yn llwyddiannus yn galluogi risgiau i fod yn fwy gweladwy a chael eu monitro'n well a helpu yn ein dull o ddelio gyda'r pandemig.

Mae'r gwaith yn parhau i ymwreiddio'r meddalwedd Rheoli Risg yma ar draws y sefydliad. Mae datblygu gwell data ac adroddiadau yn rhan o'r dasg, a chaiff hynny ei gynorthwyo gan ein rhaglen archwilio mewnol newydd sy'n edrych ar Gywirdeb Data a Mesurau Rheoli Allweddol.

## Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom weithio ar ddatblygu ein cyfres rheolaeth perfformiad allweddol sy'n cynnwys y cysylltiad rhwng perfformiad a risg.

Mae dangosyddion a sylwadau clir yn hanfodol i'n Bwrdd fedru deall y problemau o fewn y sefydliad er mwyn gwneud penderfyniadau strategol gwell. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r ffocws newid gyda'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol.

## Roedd trafodaethau ar Werth am Arian a Fforddiadwyedd Rhenti yn ddwy sgwrs bwysig a gawsom gyda'n tenantiaid

Mae Taf wedi datblygu ei hegwyddorion Gwerth am Arian ac mae ganddi'r dasg yn awr i sicrhau y cânt eu dangos yn ei pholisïau a phenderfyniadau prynu.

Mae fforddiadwyedd rhenti yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd ein tenantiaethau. Mae tîm cefnogol wedi gweithio gyda'n tenantiaid, ac mae'n iawn i ymfalchïo yn ei record, gan na chafodd unrhyw denantiaid eu troi allan am beidio talu rhent. Yn ychwanegol, mae ein hôl-ddyledion yn cymharu'n ffafriol gyda sefydliadau eraill tebyg.

## Ar ôl adolygiad Trysorlys y llynedd ...

Fe wnaethom gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i'n helpu i ddatblygu polisi fydd yn symleiddio gweinyddiaeth ein portffolio benthyciadau tra'n gwella'r mesurau rheoli ac yn cynnal costau cyfraddau llog isel i'r tymor hirach.

TAFF

## Rydym bob amser eisiau clywed eich barn

www.taffhousing.co.uk

/TaffHousing

@TaffHousing

Cymdeithas Tai Elusennol a gofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Budd Cymunedol 2014 Rhif 21408R
Cofrestrwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif L009
Rhif Cofrestru TAW: 869 8405 65